

Cofion

Mae'n dda cael adrodd fod Elizabeth Jones (Llansannan) wedi dod adref o'r ysbty erbyn hyn. Danfonwn ein cofion ati, gan weddio y bydd yn parhau i gryfhau dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn.

Galw Gweinidog

Yn dilyn y cyfarfod nos Iau o'r Pwyllgor Bugeiliol pryd cadarnhawyd y telerau y byddwn yn eu cynnig i'n gweinidog newydd, bydd naill ai y Parch. Wayne Roberts neu Mr Caerwyn Davies yn cyflwyno adroddiad i'r Henaduriaeth pawns Gwener nesaf i'w hysbysu ein bod mewn trafodaeth gyda Dr Rhodri Glyn, ac y bydd y bleidlais gudd i ofyn a yw'r aelodau hefyd yn bleidiol i'w alw yn weinidog ar Eglwysi Bro Aled wedi cael ei chynnal yn yr holl eglwysi erbyn diwedd mis Mai.

Gair i'ch atgoffa, felly, y bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn ymweld ar y dyddiadau canlynol â phob eglwys Bresbyteriaidd sy'n perthyn i'r Ofalaeth Fro i ofyn a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Rhodri yn weinidog ar yr eglwysi hyn:

Mai 15fed: Cefn Berain, Cefn Meiriadog, Llanefydd a Llanfair

Mai 22ain: Henllan, Saron, Groes a Tanyfron

Mai 29ain: Llansannan, Peniel a Nantglyn

Os bydd y bleidlais yn ffafriol, a bod y Gymdeithasfa yn rhoi caniatâd, bwriadwn symud ymlaen i hysbysebu'r swydd Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol ddechrau mis Mehefin.

I ddo

- **OEDFA'R FRO AR DAITH** nos Sul, Mai 29ain am 6.00 – y tro hwn yn Henllan. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd y Parch. John Derek Rees yn pregethu.

Manylion Cyswllt

Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102

Gwion – ✉ gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07849 591163

Sarah – ✉ sarah@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07900 308461

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 15^{fed} Mai 2016

Darlleniad y Dydd

1 Ioan 3:11-18

(BCND tud.265 / BCN tud.243)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i oedfaon y Sul. Mae'r gwrychoedd a'r coed wedi llenwi o'r diwedd dan wres yr haul ac wedi'r glaw. Mae'r dydd wedi ymestyn hefyd a'r adar yn nythu. Mae'r gwanwyn wedi cyrraedd! Mae rhai wedi clywed y gog hyd yn oed – sŵn prin y dyddiau yma ac mae'r wennol yn ôl dan y bondo ers rhai wythnosau. Diolch i Dduw am amrywiaeth a phrydferthwch ei greadigaeth ac am gael bod yn rhan ohono. Os yw'r tegwch sydd o'n cwmpas mor rhyfeddol, beth fydd tegwch wyneb Iesu pan welwn Ef? 'Anghymarol!' Fyddwn ni'n methu gwneud dim ond plygu mewn rhyfeddod a syndod o'i weld a chanu iddo. Ernes o hynny ydi'n haddoliad ni a phwrpas ein bywyd ydi 'gogoneddu Duw a'i fwynhau byth ac yn dragywydd', chwedl y Gyffes Ffydd.

Daeth Cynulliad newydd i fodolaeth ac mae i hwnnw ei bwrpas hefyd! Gweddiwn am ddoethineb ac arweiniad i'r rhai fydd yn gweithio yno fel cynrychiolwyr pobl Cymru. Wrth baratoi pregethau ar gyfer nos Sul o broffwydoliaeth Eseia, rwy'n gweld o'r newydd fod gan yr eglwys le canolog ym mywyd y genedl. Roedd Gair yr Arglwydd trwy ei broffwyd yn rhybudd ac yn anogaeth i'r brenhinoedd a fu. Roedd gan y proffwyd air yn ei bryd i'r llywodraethau yn eu cyfnod yn eu galw i fod yn ffyddlon i ffyrdd Duw a'i gyfiawnder – a'u galw i gyfri.

Does gan yr eglwys ddim plaid ond fe ddylai fod o blaid egwyddor. Egwyddorion Duw sy'n llywio bywyd yr eglwys ac fe fyddwn yn gallu atgoffa a chymeradwyo'r egwyddorion hynny i'n harweinwyr gwleidyddol ym mhob oes. Dyma ran o'r broffwydoliaeth:

“Ceisiwch farn, achubwch gam y gorthrymedig. Amddiffynwch yr amddifad, a chymerwch blaid y weddw.” (Eseia 1: 17)

Nid ymyrd mewn gwleidyddiaeth ydi hyn ond yr eglwys yn cymryd ei chyfrifoldebau proffwydol o ddifri. Enghraifft o weithredu fel hyn ydi'r hyn a wnawn wrth barhau i gefnogi mudiadau fel Cymorth Cristnogol sy'n gweithredu ar sail egwyddorion cariad Crist trwy godi llais o blaid y gwan. Cariad, fel y gwelwn o'r darlleniad heddiw ydi'r egwyddor lywodraethol i'r eglwys. Cariad ymarferol sy'n rhoi eraill, a lles eraill, yn gyntaf ydi cariad Duw. Cariad sydd i fod i lywio pob penderfyniad. Tybed, felly, a fydd y cwestiwn yn cael ei ofyn i Aelodau'r Cynulliad newydd ymhen pum mlynedd a wnaethon nhw weithredu o gariad tuag at bobl Cymru?

Darlleniad Wythnos Nesaf

Eseia 1:17-20 (BCND tud.619 / BCN tud.566)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 15^{fed}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Aneurin yn pregethu.

Mawrth – 17^{eg}

- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.

Iau – 19^{eg}

- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.

Gwener – 20^{fed}

- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel y Rhiw, Pwllglas. SYLWCH – Ni fydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod y tro hwn, ond bydd yr eisteddiad o'r Henaduriaeth yn dechrau yn brydlon am 4.30, a bydd **Cyfarfod Cyhoeddus am 6.00 i werthfawrogi gwaith plant ac oedolion yr Ysgol Sul.**

Gwen– Sadwrn
20^{fed}– 21^{ain}

- **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Llansannan am 7.30.

- **Penwythnos Merched** yn y Bala. Os nad ydych eisoes wedi archebu lle, plis cysylltwch â'r Coleg ar frys i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565.

Sul nesaf – 22^{ain}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 15^{fed}

Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwysi Bro Aled. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Sul nesaf – 22^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma – 15^{fed}

Cynhelir Sasiwn y Plant (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yng Nghapel y Waen, Nantglyn am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Teresa Wynne, Rhuthun. Bydd Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Sul nesaf – 22^{ain}

Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwysi Bro Aled. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

Sul yma – 15^{fed}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Sul nesaf – 22^{ain}

Bydd Sarah yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 15^{fed}

Cynhelir Sasiwn y Plant (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yng Nghapel y Waen, Nantglyn am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Teresa Wynne, Rhuthun.

Sul nesaf – 22^{ain}

Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 10.00 a bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw aelodau Tanyfron o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwysi Bro Aled.

Saron a Pheniel

Sul yma – 15^{fed}

Cynhelir Sasiwn y Plant (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yng Nghapel y Waen, Nantglyn am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Teresa Wynne, Rhuthun. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Sul nesaf – 22^{ain}

Bydd Dr Andras Iago yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw aelodau Saron o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwysi Bro Aled. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Saron a chynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 15^{fed}

Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwysi Bro Aled. Bydd yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00, a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.

Gwener – 20^{fed}

Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Mai 15fed**, os gwelwch yn dda.

Sul nesaf – 22^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.